ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD

Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney o 11-18 i 11-16 o 31 Awst 2016 ymlaen.

MEDI 2015

1. Cyflwyniad

1.1 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori ynghylch trefniadaeth ysgolion, mae'n ofynnol o dan God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru i'r cynigydd (y Cyngor) gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad. Yn y ddogfen hon, mae'n rhaid i'r cynigydd:

- Grynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion.
- Ymateb i'r rhain drwy roi esboniad.
- Cyflwyno barn Estyn (fel y'i nodwyd yn ei ymateb i'r ymgynghoriad) ynghylch rhinweddau cyffredinol y cynnig.

1.2 Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yr adroddiad hwn cyn gwneud unrhyw argymhellion yn ymwneud â'r cynnig.

2.0 Y cynnig a'r ymgynghoriad

2.1 Penderfynodd y Cabinet, ar 19 Chwefror 2013, gymeradwyo cynnig i ddechrau ymgynghori â'r ysgolion perthnasol yng nghyswllt addysg ôl-16 a chyfleoedd i leihau aneffeithlonrwydd yn unol â gofynion Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Achos Amlinellol Strategol.

2.2 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 5 Mehefin 2015 a daeth i ben ar 17 Gorffennaf 2015.

2.3 Yn unol â'r Cod, cyhoeddwyd dogfennau ymgynghori, gan gynnwys fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan Cyngor Sir y Fflint ar 5 Mehefin 2015.

2.4 Anfonwyd chwe chopi caled o'r ddogfen ymgynghori i chwe ysgol, sef Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Ysgol Gynradd Brychdyn, Ysgol Gynradd Goffa Wood, Ysgol Gynradd Saltney Ferry, Ysgol Gynradd Sandycroft ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Andrew, Saltney, i'r rhai nad oeddent yn defnyddio'r rhyngrwyd.

2.5 I helpu ac annog pobl i roi sylwadau, cynhyrchodd y Cyngor ffurflen ymateb. Roedd hon yn rhan o'r Ddogfen Ymgynghori, a chafodd ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor. Roedd fersiwn symlach o'r ffurflen ymateb yn rhan o'r ddogfen a baratowyd ar gyfer plant a phobl ifanc. Cafodd y ffurflen ymateb ei throi'n holiadur ar-lein, a chyhoeddwyd dolenni at yr holiadur ar y wefan hefyd.

2.6 Cafodd pob ymgynghorai e-bost a oedd yn cynnwys dolen i'w cyfeirio at y ddogfen ymgynghori ffurfiol a'r dogfennau atodol ar ddiwrnod cyntaf yr ymgynghoriad. (5 Mehefin 2015).

2.7 Cynhyrchwyd y dogfennau yn Gymraeg a Saesneg.

3.0 Cyfarfodydd

3.1 Yn dilyn casgliadau adolygiad barnwrol yn ymwneud â chynnig yn ne Cymru a chyngor atodol gan Gwnsler Cyfreithiol Llywodraeth Cymru, bu'n rhaid cynnal yr ymgynghoriad eto yng nghyswllt cynigion Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney, i liniaru unrhyw risgiau posibl o ran y penderfyniad.

3.2 O ystyried yr uchod, a chan nad yw'n ofynnol o ran y Cod i hwyluso cyfarfodydd yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion, dewisodd y Cyngor, yn achos Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney, beidio â chynnal cyfarfodydd eto yn yr ardal. Yn unol â'r Cod, cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn electronig yn bennaf.

4.0 Ymatebion i'r ymgynghoriad

4.1 At ei gilydd, cafwyd dau ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori, sef ymateb gan Estyn ar ffurf adroddiad byr ac ymateb electronig gan Goleg Cambria.

4.2 Mae'r tabl isod yn dangos sut yr ymatebodd pobl i'r ymgynghoriad:

Dull o gysylltu	Nifer a ymatebodd
Ffurflen ymateb	1
Ffurflen ymateb plant a phobl ifanc	0
Llythyr / e-bost	1
Llythyr / e-bost – plant a phobl ifanc	0
Cyfanswm	2

4.3 Mae dadansoddiad o'r ymatebion a ddaeth i law isod

Nifer	Natur yr ymateb	Ysgol Uwchradd Dewi Sant		Arall		Cyfanswm
		Gwirioneddol	%	Gwirioneddol	%	
1	Ffurflen ymateb	0	0	1	100	1
2	Llythyr / e-bost	0	0	1	100	1
Cyfansymiau		0	0	2	100%	2

5. Ffurflenni ymateb a gohebiaeth

5.1 Cynlluniwyd y ffurflen ymateb i gadarnhau:

- A oedd pobl yn cytuno ynteu'n anghytuno â'r cynnig i newid yr ystod oedran;
- Yn rhinwedd pa swyddogaeth yr oeddent yn ymateb;
- A oedd ganddynt gysylltiad â'r ysgol;
- A oeddent am gynnig unrhyw sylwadau eraill.

6. Ymateb gan Estyn

6.1 Ymateb Estyn i'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Uwchradd Dewi Sant o 11-18 i 11-16 ac ymateb dilynol Cyngor Sir y Fflint.

Mae Arolygaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru wedi paratoi'r adroddiad hwn. O dan amodau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn.

Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i gorff fel Estyn weithredu'n unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond sylwadau ar rinweddau cyffredinol cynigion i ad-drefnu ysgolion y bydd Estyn yn eu rhoi.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi paratoi'r ymateb a ganlyn i'r wybodaeth a gafodd gan y cynigydd ynghyd â gwybodaeth ychwanegol, fel data Llywodraeth Cymru a barn y Consortiwm Rhanbarthol, sy'n darparu gwasanaethau i'r ysgolion sy'n rhan o'r cynnig.

Cyflwyniad

Cynnig gan Gyngor Sir y Fflint yw hwn.

Mae'r Cyngor Sir yn cynnig gostwng uchafswm oedran Ysgol Uwchradd Dewi Sant o 18 i 16. Ar hyn o bryd, mae Ysgol Dewi Sant yn rhan o gonsortiwm sy'n cynnig addysg ôl-16. O dan y cynnig, byddai'r Ysgol yn dod â'r ddarpariaeth ôl-16 i ben yn raddol erbyn 2016. O 2016 ymlaen, byddai'r disgyblion sydd am ddilyn cyrsiau ôl-16 yn gwneud hynny yn y ganolfan chweched dosbarth bwrpasol yng Nghei Connah.

Crynodeb/ Casgliad

Mae'r cynnig yn egluro bwriad yr awdurdod i drawsnewid ei ddarpariaeth ar gyfer addysg ôl-16. Mae'r cynnig yn rhan o Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint ac yn rhan o'r cynllun strategol ehangach ar gyfer darpariaeth 14-19 yng ngogledd Sir y Fflint. Mae'r ganolfan chweched dosbarth newydd yng Nghei Connah yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae'r cynnig yn debygol o wella safon addysg ôl-16 i ddisgyblion a fyddai'n manteisio ar gyfleusterau dysgu modern ac amrywiaeth ehangach o gyrsiau nag a gynigir ar hyn o bryd yn Ysgol Dewi Sant a'r consortiwm lleol.

Disgrifiad a manteision

Mae manteision tebygol y cynnig wedi'u diffinio'n glir ac yn cysylltu'n dda â'r diben a'r sail resymegol a nodwyd. Ystyriwyd y posibiliadau eraill a rhoddwyd rheswm da dros ddiystyru'r rhain.

Mae'r cynnig yn esbonio'n dda'r dybiaeth y bydd y ganolfan ôl-16 bwrpasol yng Ngholeg Cambria, Cei Connah yn cynnig y potensial i ddarparu cyfleoedd dysgu ehangach a chyfleusterau mwy modern na'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd y newid arfaethedig hwn yn ei gwneud yn bosibl ymateb yn well i anghenion dysgwyr ac mae Estyn yn credu bod hyn yn rhagdybiaeth resymol. Bydd yn crynhoi adnoddau ar un safle gyda'r bwriad o gynnig darpariaeth effeithlon a chynaliadwy. O dan drefniadau presennol y consortiwm, mae disgyblion yn teithio i wahanol safleoedd i ddilyn gwahanol gyrsiau. O dan y cynnig hwn, ni fyddai'n rhaid iddynt wneud hynny.

Mae'r cynnig yn nodi bod nifer y disgyblion sy'n symud ymlaen i'r chweched dosbarth yn Ysgol Dewi Sant yn is na'r cyfartaledd drwy'r sir. Mae'r awdurdod lleol yn rhagdybio bod hyn i'w briodoli i'r ffaith bod cyrsiau chweched dosbarth eraill ar gael yn y cyffiniau. Fodd bynnag, nid yw'n cynnig unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r rhagdybiaeth hon, nac i ddangos i ba raddau y byddai'r cynnig yn llwyddo i atal dysgwyr rhag parhau i fanteisio ar y darpariaethau eraill hyn. (1)

Mae'r cynnig yn nodi'n glir na fydd yn niweidiol i'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion 11-16 oed yn Ysgol Dewi Sant. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn ystyried sut y bydd colli staff sy'n dysgu disgyblion chweched dosbarth a disgyblion iau yn effeithio ar addysg disgyblion 11-16 oed. (2)

Mae'r cynnig yn cynnwys dadansoddiad o berfformiad disgyblion Ysgol Dewi Sant yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys canlyniadau disgyblion chweched dosbarth yr ysgol ac felly nid yw'n cefnogi'r ddadl y bydd eu canlyniadau'n gwella wrth symud i ganolfan chweched dosbarth integredig, mwy. (3)

Er na fydd y ganolfan chweched dosbarth yng Ngholeg Cambria yn newid y statws ieithyddol, mae'r cynnig yn nodi'n glir y gallai'r Ganolfan ôl-16 gynnig cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr fanteisio ar ragor o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, os bydd digon o alw amdanynt.

Mae'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn cyfeirio at amrywiaeth eang o grwpiau sy'n agored i niwed a'u hanghenion fel dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r

dadansoddiad yn rhoi digon o fanylion am effaith y newidiadau arfaethedig ar y grwpiau hyn o ran dilyn cyrsiau ôl-16. (4)

Un o anfanteision y cynnig yw bydd angen i ddisgyblion o Saltney deithio tua 8 milltir i'r ganolfan chweched dosbarth yng Nghei Connah os ydynt am ddilyn cyrsiau ôl-16. Fodd bynnag, bydd cludiant ar gael i'r disgyblion hyn fel rhan o drefniadau cludiant ôl-16 Sir y Fflint.

Nid yw'r cynnig yn ymdrin â'r lleoedd gwag presennol yn Ysgol Dewi Sant a byddai angen ailasesu'r rhain pe bai'r uchafswm oed yn gostwng. (5)

Ymateb Cyngor Sir y Fflint i adroddiad Estyn

1. Mae Ysgol Dewi Sant, Saltney filltir o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr ac mae'n colli myfyrwyr ôl-16 i ganolfannau yng Nghaer a'r ardaloedd cyfagos. Fodd bynnag, gobeithio y bydd yr amrywiaeth o gyrsiau y gellir eu cynnig yng Ngholeg Cambria, y ganolfan ôl-16 newydd sy'n rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ynghyd â'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a marchnata'r ganolfan yn effeithiol, yn sicrhau y bydd modd denu rhagor o fyfyrwyr o Saltney.

2. Yn y ddogfen ymgynghori, cadarnhaodd y Cyngor y canlynol:

- Nid oes unrhyw oblygiadau o bwys ynghlwm wrth y cynigion a fyddai'n effeithio ar safon y ddarpariaeth 11-16 bresennol yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant. Mae gan yr ysgol record lwyddiannus yng Nghyfnod Allweddol 4. Yn ôl system gategoreiddio Llywodraeth Cymru roedd yr ysgol yn yr ail chwartel o ran canlyniadau dysgwyr yn 2014 a, chyn hynny, yn 2013, roedd ym Mand 2 (roedd 5 band).
- Y tro diwethaf i'r ysgol gael ei harolygu gan Estyn oedd yn 2011, ac fe'i barnwyd yn 'Dda' a bod y rhagolygon ar gyfer gwella'n "Rhagorol". Barnodd Estyn fod yr ysgol yn debygol o wella a hynny ar sail yr arweinyddiaeth a'r gefnogaeth effeithiol iawn a gynigiwyd gan yr uwch reolwyr a'r rheolwr canol, diwylliant o ddisgwyliadau uchel a record lwyddiannus.
- Ym marn y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE), roedd rhagolygon ar gyfer gwella'n dda. Roedd eu sylwadau ar eu hymweliad ffocws diwethaf yn cyfeirio at gynlluniau a oedd wedi'u paratoi'n dda, roedd staff yn ymwybodol o'r blaenoriaethau ac roedd yr ysgol yn gwneud cynnydd da o ran cyrraedd targedau'r Cynllun Gwella Ysgolion. Roedd yn cydnabod cryfderau a meysydd lle'r oedd arfer rhagorol ac nid oedd angen rhoi sylw i unrhyw feysydd o bwys.
- Bydd GwE yn parhau i gynorthwyo a monitro'r ysgol bob tymor.
- Mae fformwla ariannu ysgolion yr Awdurdod Lleol yn cynnwys elfennau ar ffurf 'cyfandaliad' i gydnabod gorbenion/costau sefydlog ysgolion ni waeth

beth yw eu maint na nifer eu disgyblion. Mae'r dull hwn o ariannu ysgolion yn sicrhau nad yw ysgolion llai dan anfantais annheg.

- At hyn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod ysgolion 11-18 yn perfformio'n well nag ysgolion 11-16.

3. Gan nad oedd Ysgol Dewi Sant yn gallu darparu addysg ôl-16 yn unol â'r Mesur Addysg a Sgiliau'n annibynnol, penderfynwyd rai blynyddoedd yn ôl i sefydlu consortiwm. O ganlyniad, mae data'r Awdurdod yn seiliedig ar ganlyniadau'r consortiwm yn hytrach na'r ysgolion unigol.

   Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau'r consortiwm (sy'n cynnwys Dewi Sant) ar gyfer y 3 blynedd diwethaf, gan ddefnyddio dangosyddion yr Awdurdod Lleol a dangosyddion cenedlaethol:

	Blwyddyn 11/12		Blwyddyn 12/13		Blwyddyn 13/14	
Disgrifiad	Canran y disgyblion 17 oed sy'n dilyn yr hyn sy'n cyfateb i 2 gwrs Safon Uwch ac sy'n cyrraedd trothwy Lefel 3.	Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog disgyblion 17 oed	Canran y disgyblion 17 oed sy'n dilyn yr hyn sy'n cyfateb i 2 gwrs Safon Uwch ac sy'n cyrraedd trothwy Lefel 3.	Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog disgyblion 17 oed	Canran y disgyblion 17 oed sy'n dilyn yr hyn sy'n cyfateb i 2 gwrs Safon Uwch ac sy'n cyrraedd trothwy Lefel 3.	Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog disgyblion 17 oed
Consortiwm	91	563	91	755	89	655
ALl	97	700	97	750	97	750
Cymru	97	773	97	807	97	804

Nifer ar y Gofrestr - Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney (6ed Dosbarth)

	Ionawr 2015	Medi 14	Ionawr 2014	Medi 13
Blwyddyn 12	49	46	48	50
Blwyddyn 13	37	39	42	42
Blwyddyn 14	0	0	0	0
Cyfansymiau	**86**	**85**	**90**	**92**

4. Os gall dysgwyr gyrraedd lefel 3, byddant yn cael mynd i'r ganolfan ôl-16 newydd, modern ac ni fydd angen iddynt symud o'r naill safle i'r llall i ddilyn cyrsiau gwahanol. Bydd amrywiaeth ehangach o gyrsiau ar gael a bydd cludiant am ddim i fyfyrwyr o ardal Saltney sydd am fynd i'r ganolfan ôl-16

yng Ngholeg Cambria. Hefyd, nid oes darpariaeth ar hyd o bryd yn Ysgol Dewi Sant i ddysgwyr ôl-16 nad ydynt yn cyrraedd lefel 3. Mae Coleg Cambria, fodd bynnag, yn cynnig amrywiaeth unigryw o gyrsiau i ddysgwyr ar lefel 1 a 2.

5. Mae'r cynnig presennol yn canolbwyntio ar grynhoi cyrsiau mewn canolfan ôl -16. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb i reoli a lleihau nifer y lleoedd gwag yn ei bortffolio. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda'r ysgol at y diben hwnnw yn unol â pholisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol leihau nifer y lleoedd gwag yn eu hysgolion. Er mwyn mynd i'r afael â hynny, a hefyd er mwyn ymdrin â materion fel cyflwr ysgolion, pa mor addas a digonol ydynt, mae'r Awdurdod yn cynnal astudiaeth dichonolrwydd o Ysgol Uwchradd Dewi Sant er mwyn cyflwyno cynllun cyfalaf i'w gynnwys yn rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif y Cyngor neu yn rhaglen gyfalaf yr Awdurdod Lleol.

6.2 Ymateb Coleg Cambria

Cafwyd ymateb cadarnhaol gan Goleg Cambria a hynny ar ffurflen ymateb electronig. Dyma oedd yr unig ymateb a gafwyd drwy'r system hon:

'*Bydd y penderfyniad i greu'r ganolfan chweched dosbarth bwrpasol newydd yng ngogledd Sir y Fflint yn trawsnewid addysg Safon Uwch ôl-16. Mae Coleg Cambria yn falch o weithio mewn partneriaeth ag Ysgol Uwchradd Dewi Sant ac Ysgolion Uwchradd Cei Connah, John Summers a Threffynnon ynghyd â Chyngor Sir y Fflint i wella cyfleoedd dysgu yn yr ardal. Rydym yn hyderus y gallwn gydweithio i sicrhau bod y rhaglen trawsnewid hon yn rhoi mwy o ddewis i ddysgwyr ac yn gwella'u canlyniadau cyn ac ar ôl-16.'*

ATODIAD A – Crynodeb o'r rhai a gafodd copi o'r ddogfen ymgynghori

Nifer	Rhanddeiliaid	Nifer y rhai a gafodd gopi
1	Rhieni/Gofalwyr disgyblion Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney, Ysgol Gynradd Brychdyn, Ysgol Gynradd Goffa Wood, Saltney Ysgol Gynradd Saltney Ferry, Ysgol Gynradd Sandycroft ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony, Saltney	1262
2	Athrawon Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney	37
3	Staff cymorth Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney	27
4	Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney, Ysgol Gynradd Brychdyn, Ysgol Gynradd Goffa Wood, Saltney Ysgol Gynradd Saltney Ferry, Ysgol Gynradd Sandycroft ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony, Saltney	10
5	Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru, Llanelwy	1
6	Esgobaeth Gatholig Wrecsam	1
7	Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ysgolion uwchradd a chynradd cyfagos	10
8	Aelodau Lleol Cyngor Sir y Fflint sy'n cynrychioli'r ardaloedd y bydd y cynnig yn effeithio arnynt	5
9	Aelodau Cynulliad Lleol a Rhanbarthol a'r Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardaloedd y bydd y cynnig yn effeithio arnynt	2
10	Cyngor Tref Saltney	1
11	Gweinidogion Cymru	1
12	Estyn	1
13	Staff dysgu a chymorth perthnasol a'r undebau llafur	9
14	Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru – Consortiwm GwE	1
15	Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru	1
16	Cyngor Sir Gorllewin Sir Caer	1
17	Swyddog Cludiant Sir y Fflint a Swyddogion Cludiant awdurdodau lleol cyfagos	2
18	Partneriaeth Leol Cymunedau'n Gyntaf	1
19	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	1
20	Yr Urdd	1
21	Coleg Cambria	1
22	Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc	1
	Cyfanswm	**1377**